PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED

DYDD MERCHER, 19 MEHEFIN 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):
P. Cooper D. Thomas

Sylwedydd (Yn rhithwir):
Y Cynghorydd N. Lewis

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):
J. Blewitt, Swyddfa Archwilio Cymru
Mr J. Jones - Cadeirydd Bwrdd Cronfa Bension Dyfed

Hefyd yn bresennol (Yn Bersonol):
Mr A. Brown - Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol
K. Gerard, Rheolwr Pensiwn
M. Owens, Cyfrifydd Cynorthwywr
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 2.00 - 4.45 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR Y 27 MAWRTH 2024

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 27 Mawrth 2024 gan eu bod yn gywir.

4. COFNODION BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED 14 MAI 2024

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod adroddiad cyfarfod Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 14 Mai 2024 wedi'i dynnu'n ôl gyda'r bwriad o'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

5. ADRODDIAD BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod adroddiad Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed wedi'i dynnu'n ôl gyda'r bwriad o'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

6. CYNLLUN ARCHWILIO 2024

Croesawodd y Pwyllgor i'r cyfarfod Jason Blewitt o Archwilio Cymru a gyflwynodd Gynllun Archwilio 2024 ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn nodi cyfrifoldebau statudol yr archwilydd allanol ac yn cyflawni'r rhwymedigaethau o dan y Côd Ymarfer Archwilio. Nodai'r Cynllun Archwilio y gwaith archwilio sydd i'w wneud i fynd i'r afael â'r risgiau archwilio a nodwyd ynghyd â meysydd ffocws allweddol eraill yn ystod 2024. Nodai'r cynllun ffi archwilio amcangyfrifedig a hefyd rhoddai fanylion am y tîm archwilio a'r dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau'r tîm archwilio a'r allbynnau arfaethedig.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffi archwilio amcangyfrifedig, lle nodwyd bod y cyfraddau ar gyfer 2024-25 wedi cynyddu 6.4% ar gyfartaledd o ganlyniad i bwysau chwyddiant na ellir ei osgoi a'r angen parhaus i fuddsoddi mewn ansawdd archwilio.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Cynllun Archwilio Manwl 2024.

7. SEFYLLFA GYLLIDEBOL DERFYNOL 2023-24

Derbyniodd y Pwyllgor sefyllfa derfynol cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2023-24 fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024 a ddangosodd danwariant o gymharu â'r gyllideb o £2.2m.

Nodwyd bod gorwariant o £5.6m oherwydd bod buddion ymddeol ar ffurf cyfandaliad £6.2m yn fwy na'r gyllideb a bod trosglwyddiadau allan £1.2m yn fwy na'r gyllideb. Yn gwrthbwyso'r gorwariant hwn oedd tanwariant o £1.1m mewn pensiynau taladwy, o £526k mewn buddion marwolaeth ar ffurf cyfandaliad, ac o £180k mewn treuliau rheoli. Mewn perthynas â phensiynau sy'n daladwy, adeg gosod y gyllideb ar gyfer 2023-24 roedd cynnydd o 2.2% wedi'i gynnwys i amcangyfrif y pensiynau ychwanegol a dalwyd ar aelodau oedd newydd ddod yn bensiynwyr am y flwyddyn a hyd yma roedd y cynnydd gwirioneddol mewn aelodau oedd yn bensiynwyr yn agosach at 1%.

O ran buddion ymddeol ar ffurf cyfandaliad, trosglwyddiadau allan o'r cynllun a buddion marwolaeth ar ffurf cyfandaliad, eglurwyd bod y rhain yn dibynnu ar nifer yr ymddeoliadau, ymadawyr, a marwolaethau drwy gydol y flwyddyn na ellid eu rhagweld wrth bennu'r gyllideb. Yn hyn o beth, cydnabu'r Pwyllgor y gallai

newidiadau i'r amgylchedd macro megis cyfraddau llog, yn ogystal ag ailstrwythuro mewnol o fewn sefydliadau ar draws y Gronfa ddylanwadu ar ymddygiad gweithwyr ac effeithio ar lefel y buddion ymddeol ar ffurf cyfandaliad a dynnir drwy gydol y flwyddyn.

Nododd y Pwyllgor fod incwm wedi bod £7.8m yn fwy na'r hyn a gyllidebwyd, a bod cyfraniadau £7.2m yn fwy na'r hyn a gyllidebwyd gan fod tâl pensiynadwy gweithwyr yn fwy nag a ragwelwyd wrth bennu'r gyllideb oherwydd dyfarniad cyflog uwch. Hefyd, roedd yr incwm ychwanegol a dderbyniwyd gan gyflogwyr yn uwch na'r hyn a ragwelwyd wrth bennu'r gyllideb. Roedd y trosglwyddiadau i mewn £2.5m yn fwy na'r gyllideb ac roedd yr incwm buddsoddi £1.9m yn is na'r gyllideb.

Yn gyffredinol, cyfanswm y gwariant oedd £128.4m a chyfanswm yr incwm oedd £130.6m.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Sefyllfa Derfynol Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024.

8. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 31 MAWRTH 2024

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian Parod a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed. Nodwyd fod Cyngor Sir Caerfyrddin, ar 31 Mehefin, 2024, yn cadw £6.3m o arian parod ar ran y Gronfa ar gyfer gofynion llif arian uniongyrchol i dalu pensiynau, cyfandaliadau a chostau rheoli buddsoddiadau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Cysoni Arian Parod Cronfa Bensiwn Dyfed.

9. ADRODDIAD GWEINYDDU PENSIYNAU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a roddai ddiweddariad ar Weinyddu Pensiynau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar y gweithgareddau yn y gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau ac roedd yn cynnwys materion rheoleiddiol, y gofrestr torri amodau, i-Connect, cysoniad GMP a llif gwaith.

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor ynghylch yr oedi a wynebai rhai sefydliadau mwy wrth drosglwyddo i'r system i-connect, eglurodd y Rheolwr Pensiynau mai cyfran fach o aelodaeth gyffredinol y cynllun oedd colegau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr Adroddiad Gweinyddu Pensiynau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.

10. ADRODDIAD TORRI AMODAU

Cafodd y Pwyllgor yr Adroddiad Torri Amodau i'w ystyried mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed a baratowyd yn unol ag Adran 70 Deddf Pensiwn 2004, Côd Ymarfer rhif 14 a Pholisi Torri Amodau Cronfa Bensiwn Dyfed.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y rhestr o achosion o dorri rheolau a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad a oedd yn manylu ar yr achosion lle nad oedd cyfraniadau gweithwyr/cyflogwyr wedi dod i law mewn pryd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.

11. COFRESTR RISG

Cafodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg, a oedd yn manylu'r risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed, i'w hystyried. Roedd yr adroddiad yn cynnwys asesiad o'r effaith bosibl, tebygolrwydd a graddfa risg ar gyfer pob maes a nodwyd, ynghyd â'r mesurau rheoli a weithredwyd i liniaru'r risgiau a nodwyd.

Roedd y gofrestr i'w hystyried yn canolbwyntio ar yr 8 risg Llywodraethu a Rheoleiddio a chadarnhawyd, yn dilyn adolygiad o'r gofrestr, nad oedd unrhyw newidiadau i risgiau unigol wedi'u nodi ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor.

Gofynnwyd a ddylai 'pwysau gwleidyddol' gael ei ymgorffori yn y gofrestr risg o ystyried y pwysau a roddir ar Gronfa Bensiwn Dyfed yn y maes hwn. Rhoddodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn wybod i'r Pwyllgor am y trefniadau monitro sydd mewn lle ar gyfer buddsoddiadau'r Gronfa a nododd nad oedd yn cael ei ystyried yn angenrheidiol i ymgorffori 'pwysau gwleidyddol' fel maes risg o fewn y gofrestr ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi adroddiad y gofrestr risg.

12. CYNLLUN HYFFORDDI 2024-2025

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad i'w ystyried ynghylch y Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2024-2025 a oedd yn manylu ar amserlen cyfarfodydd y pwyllgor, a digwyddiadau hyfforddi ar gyfer aelodau a swyddogion Cronfa Bensiwn Dyfed.

Cyfeiriodd y Cynghorydd P. Cooper at ei bresenoldeb diweddar yng Nghynhadledd yr Awdurdod Lleol PLSA a gynhaliwyd 11-13 Mehefin 2024 a dywedodd fod yr hyfforddiant wedi bod yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth ac y byddai'n helpu i gyflawni ei rôl ar Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2024-2025.

13. DADANSODDIAD DWYSEDD CARBON AR 31 MAWRTH 2024

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgarwch a'r cynnydd o ran sefyllfa Ôl Troed Carbon y Gronfa i'w hystyried.

Roedd y diweddariad yn dangos y Dwysedd Carbon Cyfartalog Pwysedig ar gyfer portffolio ecwiti'r Gronfa, a oedd wedi gostwng 18% yn y flwyddyn hyd at 31

Mawrth 2024 ac a oedd yn cynrychioli gostyngiad o 15%. y flwyddyn dros y tair blynedd a hanner ers y llinell sylfaen ym mis Medi 2020.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r diweddariad ynghylch Ôl Troed Carbon mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.

14. DIWEDDARIAD BUDDSODDI CYFRIFOL PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - MAWRTH 2024

Cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru Buddsoddiadau Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru ar 31 Mawrth 2024 yn manylu ar weithgarwch Buddsoddiadau Cyfrifol diweddar ynghyd â gwybodaeth am yr Is-gronfeydd a ganlyn yr oedd Cronfa Bensiwn Dyfed wedi buddsoddi ynddynt:

- Twf Byd-eang
- Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy
- Credyd Byd-eang

Yn ogystal â'r uchod, roedd y diweddariad hefyd yn darparu Crynodeb Stiwardiaeth ynghyd â'r atodiadau perthnasol rhif 1-4 yn yr adroddiad.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn sylw'r Pwyllgor at y pwyntiau amlwg o ran adrodd ar hinsawdd, fframwaith hinsawdd a rhestr ffocws hinsawdd, polisi uwchgyfeirio, incwm sefydlog cynaliadwy, caffael darparwyr Pleidleisio ac Ymgysylltu (V&E) ac adroddiadau risg Hinsawdd ac Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG).

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad diweddaru.

15. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

16. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 31 MAWRTH 2024

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 15 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn er anfantais i aelodau'r gronfa.

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar

31 Mawrth 2024. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cefndir y farchnad fyd-eang a materion i'r Pwyllgor eu hystyried.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

16.1 nodi Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024.

16.2 am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad, bod y £50m terfynol o'r £100m a ddyrannwyd i seilwaith GCM Grosvenor yn cael ei ariannu o werthu'r mandad Ecwiti Goddefol Ewropeaidd.

16.3 am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad, bod yr ail £50m o'r £150m a ddyrannwyd i Gredyd Preifat PPC Russell Investments yn cael ei ariannu o werthu mandad Ecwiti Goddefol y DU.

17. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 31 MAWRTH 2024

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 15 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn er anfantais i aelodau'r gronfa.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024 a oedd yn nodi dadansoddiad o berfformiad o ran lefel y gronfa gyfan a chan y rheolwr buddsoddi am y cyfnodau ers i'r gronfa gychwyn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024.

18. ADRODDIADAU'R RHEOLWR BUDDSODDI AR 31 MAWRTH 2024

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 15 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith ar y Gronfa Bensiwn er anfantais i aelodau'r gronfa.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiadau rheolwyr buddsoddi a oedd yn nodi perfformiad pob rheolwr fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024.

- BlackRock - Adroddiad Chwarterol 31 Mawrth 2024;
- Schroders - Adroddiad Buddsoddi Ch1 2024;
- Partners Group - Adroddiad Chwarterol Ch1;
- Cronfa Tyfu Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Mawrth 2024;
- Cronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Mawrth 2024

- Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Mawrth 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi adroddiadau'r rheolwyr buddsoddi ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2024.

19. DIWEDDARIAD SCHRODERS

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 15 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn er anfantais i aelodau'r gronfa.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad a baratowyd gan Schroders a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddiadau'r Gronfa. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am fusnes, Trosolwg ar y Farchnad Eiddo Tiriol, Trosolwg ar y Portffolio, Perfformiad a Strategaeth a gweithgareddau Cynaliadwyedd a Llywodraethu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi cyflwyniad diweddaru Schroders.

_____ _____

CHAIR **DATE**